**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**ASTUDIAETH AR Y CYD O ARGAELEDD TIR AR GYFER TAI 2012**

**RHWNG CYNGOR SIR CEREDIGION**
**A'R GRŴP ASTUDIAETH:**

**Y FFEDERASIWN ADEILADWYR TAI**
**LINC CYMRU**
**DŴR CYMRU**
**TAI CEREDIGION**
**TAI CANTREF**
**ASIANTAETH AMGYLCHEDD CYMRU**
**CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU**

**Mis Mai 2013**

**CYNNWYS**


1 Crynodeb

2 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai

3 Sylwadaeth

4 Data Monitro

Atodiad 1 - Atodlenni Safle

Atodiad 2 - Data ar Brosiectau a Gwblhawyd yn y Gorffennol

Atodiad 3 - Data ar Gyflenwad Blaenorol o Dir

Atodiad 4 - Argymhellion yr Arolygydd i Lywodraeth Cymru

## 1.0 CRYNODEB

1.1 Dyma Astudiaeth ar y cyd Cyngor Sir Ceredigion mewn perthynas ag Argaeledd Tir Adeiladu ar gyfer Tai, 2012. Mae'n disodli'r adroddiad ar gyfer y dyddiad sylfaen blaenorol, sef 2011.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r cyflenwad tir sydd ar gyfer tai yn yr ardal ar y dyddiad sylfaen 1 Ebrill 2012.

1.3 Paratowyd yr astudiaeth yn unol â gofynion *Polisi Cynllunio Cymru*, Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN 1) a'r Nodyn Arweiniad ynglŷn â'r broses o gynnal Astudiaeth ar y Cyd o argaeledd tir ar gyfer tai (Mis Medi 2012) Trowch at y dogfennau hynny i gael manylion am yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ar gael ar gyfer tai ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol a'r broses o gynnal astudiaeth. Mae'r ddogfen honno ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

***http://wales.gov.uk/topics/planning/planningstats/housing-land-availability-in-wales/?lang=en***

1.4 Mae Adran 2 yn rhestru manylion am y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai ar hyn o bryd a sut y cyfrifwyd hynny. Ar sail y dull o gyfrifo yn ôl y gyfradd adeiladu yn y gorffennol, a amlinellir yn TAN 1, mae'n ymddangos fod gan Gyngor Sir Ceredigion gyflenwad digonol o dir adeiladu tai i bara am **5.3** blynedd.

**Cyfranogiad**

1.5 Aseswyd yr angen am cyflewad tir ar gyfer tai mewn ymgynghoriad â:

- Ffederasiwn Adeiladwyr Tai
- Linc Cymru
- Dŵr Cymru
- Tai Ceredigion
- Tai Cantref
- Asiantaeth Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru

**Cynhyrchu'r Adroddiad**

1.6 Cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion atodlenni safle drafft a ffurflenni safle ar gyfer ymgynghoriad ar 2 Tachwedd. Cafwyd sylwadau gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a chyrff eraill yn ystod y cyfnod. I ddilyn, cyhoeddwyd Datganiad o Dir Cyffredin ac, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Astudiaeth, fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 30 Ionawr 2013.

1.7 Roedd angen cael Arolygydd Cynllunio penodedig i ddatrys nifer o faterion oedd yn destun dadl oherwydd nad oedd pob corff yn gallu cytuno ar fanylion yn yr atodlen safle a’r dull cyfrifo yn y cyfnod SoCG.

1.8 Yna, paratowyd adroddiad i Lywodraeth Cymru gan yr Arolygydd Cynllunio (Atodiad 4), yn gwneud argymhellion ynglŷn â’r pwyntiau dadleuol. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth i argymhellion yr Arolygydd Cynllunio a gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion newidiadau i’r atodlenni safle. Mae’r wybodaeth honno wedi cael ei hymgorffori yn yr adroddiad hwn.

## 2.0 CYFLENWAD TIR AR GYFER TAI

2.1 Mae’r cyflenwad pum mlynedd o dai yn cynnwys safleoedd sydd â chaniatad cynllunio (amlinellol neu lawn) a safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd, i gyd wedi eu categoreiddio fel a ragnodir yn TAN 1.

2.2 Cyfrifwyd y cyflenwad tir trwy ddefnyddio methodoleg cyfradd adiladu'r gorffennol gan nad oedd Cynllun Datblygu Lleol cyfredol wedi ei fabwysiadu ar gyfer ardal Cyngor Sir Ceredigion ar 1 Ebrill 2012.

**Tabl 1 – Cyflenwad Dynodedig o Dir ar gyfer Tai**
(Ceir rhestr lawn o safleoedd yn Atodiad 1)

| **Cyflenwad Tir Adeiladu 01 Ebrill 2012 – 2017 (Safleoedd Mawr)** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflewnwad 5 mlynedd o dir (Categorïau TAN 1) | | | | Mwy na 5 mlynedd | | |
| | Nifer a gynigir | Wrthi’n cael eu hadeiladu | 1 | 2 | 2* | 3 (i) | 3 (ii) | Cartrefi a gwblhawyd ers yr astudiaeth ddiwethaf |
| **Cyfanswm** | **748** | **142** | **83** | **485** | **38** | **88** | **11** | **41** |

2.2 Categorïau cyflenwad tir 5 mlynedd (Hynny yw Categorïau 1, 2, 2* ac Wrthi’n Cael eu Hadeiladu):

| | |
|---|---|
| Preifat | 720 |
| Cyhoeddus/ Cymdeithas Dai | 28 |
| **Cyfanswm** | **748** |

### 2.3 Cyflenwad Safleoedd Bychan

Mae cyfraniad safleoedd bychan o lai na 5 tŷ yn seiliedig ar y nifer a gwblhawyd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

**Tabl 2 – Nifer a gwblhawyd mewn Safleoedd Bychan yn ystod y**

**5 mlynedd ddiwethaf**

| 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 121 | 151 | 95 | 129 | 229 | 725 |

2.4 Y cyfanswm cyffredinol **o gyflenwad tir 5 mlynedd** (safleoedd mawr a rhai bach) yw **1473 (748 + 725)**

**Tabl 3 – Cyflenwad tir 5 Mlynedd**
**(Cyfrifiad yn ôl niferoedd a gwblhawyd yn y gorffennol)**

| | | |
|---|---|---|
| **A** | Cyfanswm a gwblhawyd yn ystod y 9.75 blwyddyn ddiwethaf (1 Gorffennaf 2002 - 31 Mawrth 2012) | **2687** |
| **B** | Cyfartaledd a gwblheir yn flynyddol = (A/9.75) | **276** |
| **C** | Cyfanswm y cyflenwad tor 5 mlynedd | **1473** |
| **D** | **Cyflenwad tir fesul blwyddyn** = (C / B) | **5.3** |

## 3.0 SYLWADAETH

3.1 Nid yw Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion wedi cael ei fabwysiadu hyd yma. Gan hynny ni ellir defnyddio ei ddarpariaeth tai, ei bolisïau a'i ddyraniadau. Gan hynny ni fyddai'n briodol, ar hyn o bryd, cymhwyso ffigwr anghenion tai y Cynllun Datblygu yn y cyfnod yma o'r broses Cyd-astudiaeth. Gan hynny, y dull Cyfradd Adeiladu Blaenorol yw'r dull mwyaf priodol o gyfrifo'r cyflenwad tir. Cyhoeddwyd adroddiad Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol ar 11 Ebrill 2013 a mabwysiadwyd y Cynllun ar 25 Ebrill 2013. Bydd yr adroddiad Astudiaeth ar y Cyd o Argaeledd Tir ar gyfer Tai nesaf yn cael ei gyfrifo trwy ddefnyddio'r dull arall.

3.2 Mae Tabl 3 uchod yn dangos bod digon o gyflenwad tir am fwy na 5 mlynedd.

## 4.0 DATA MONITRO

4.1 Mae TAN 1 yn mynnu bod yr Astudiaeth ar y Cyd o Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am ddatblygu tir ar gyfer tai gan ddatgan y defnydd o dir wedi ei ddatblygu'n flaenorol, defnyddio safleoedd sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau risg llifogydd a'r math o dai sy'n cael eu datblygu (hynny yw tai, flatiau, arall). Nodir y data hwn isod.

**Tabl 4 – Ailddefnyddio tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol (safleoedd mawr)**

| | **Cyfanswm nifer a chanran cartrefi yn ôl Categori a Math o Dir** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bl. | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categori 3i a 3 ii | | | | **Cwblhawyd 2011-12** | | | |
| | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2013 | 139 | 62 | 87 | 38 | | | | | | | | |
| 2014 | 131 | 87 | 19 | 13 | | | | | | | | |
| 2015 | 95 | 85 | 17 | 15 | | | | | | | | |
| 2016 | 102 | 81 | 24 | 19 | | | | | | | | |
| 2017 | 136 | 96 | 6 | 4 | 82 | 90 | 9 | 10 | 34 | 83 | 7 | 17 |

**Tabl 5 – Safleoedd sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau risg o lifogydd (safleoedd mawr)**

| | **Cyfanswm nifer a chanran cartrefi yn ôl Categori a Math o Dir** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bl. | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categori 3i a 3 ii | | | | **Cwblhawyd 2011-12** | | | |
| | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2013 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| 2014 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| 2015 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| 2016 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| 2017 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Table 6 – Cwblhad yn ôl y math o dai – 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012**

- 41 (100%) o dai wedi eu cwblhau
- 0 (0 %) o randai/fflatiau wedi eu cwblhau
- 0 arall (e.r. bungalo) wedi eu cwblhau

**Atodiad 1 – Atodlen Safleoedd (Gweler y ddogfen ar wahân)**

**Atodiad 2 – Data cyflanwiadau blaenorol**

| | **Nifer y Cartrefi a Gwblhawyd ar** | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Safleoedd Mawr** | **Safleoedd Bach** | **Cyfanswm a Gwblhawyd** |
| 2007[1] | 177 | 134 | 311 |
| 2008 | 79 | 121 | 200 |
| 2009 | 90 | 151 | 241 |
| 2010 | 68 | 95 | 163 |
| 2011 | 109 | 129 | 238 |
| 2012 | 41 | 229 | 270 |

**Atodiad 3 – Data Cyflenwad Tir Blaenorol**

| | **Cyflenwad 5 mlynedd – nifer y cartrefi** | | | **Cyflenwad faint o flynyddoedd** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **1** | **2** | **2*** | | **3i** | **3ii** |
| 2007 | 106 | 284 | 0 | 3.7 | 65 | 0 |
| 2008 | 21 | 348 | 0 | 3.7 | 88 | 8 |
| 2009 | 12 | 389 | 0 | 4.5 | 154 | 11 |
| 2010 | 16 | 375 | 0 | 4.3 | 235 | 11 |
| 2011 | 62 | 520 | 8 | 5.9 | 146 | 11 |
| 2012 | 83 | 485 | 38 | 5.3 | 88 | 11 |

[1] Gweler troednodyn 1.

**Atodiad 4 – Adroddiad yr Arolygydd –**